# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1223(FM) a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**At David Lloyd:**

Rwy’n ysgrifennu mewn ymateb i’ch cwestiwn i Brif Weinidog Cymru yng nghyfarfod llawn 15 Gorffennaf ynghylch ehangu’r Lwfans Tanwydd Gaeaf i bob teulu sydd ar incwm isel.

Er bod ffactorau allweddol sy’n dylanwadu ar dlodi tanwydd, fel lefelau incwm/budd-dal, yn faterion a gedwir yn ôl, rwy’n benderfynol o barhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ac amrywiaeth eang o bartneriaid allanol, gan gynnwys Ofgem a chyflenwyr ynni, i ddylanwadu ar holl elfennau allweddol tlodi tanwydd – lefelau incwm, prisiau tanwydd ac effeithlonrwydd ynni.

Rwy’n aelod o ‘r Grŵp Rhyng-Weinidgogol ar Dlodi Tanwydd, a sefydlwyd fel grŵp lefel uchel â chylch gwaith i ystyried materion polisi sy’n ymwneud â thlodi tanwydd. Mae’r Grŵp Rhyng-Weinidogol yn cynnwys Gweinidogion o Adrannau allweddol Llywodraeth y DU, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Gweinyddiaethau Datganoledig a chynrychiolwyr y rheoleiddiwr ynni annibynnol, Ofgem. Mae’r Grŵp Rhyng-Weinidogol yn cwrdd i werthuso cynnydd, trafod opsiynau a chymryd penderfyniadau strategol. Es i’r cyfarfod diwethaf ar 15 Gorffennaf lle trafodwyd amrywiaeth o fesurau posibl, byr, canolig a hirach.

Hoffwn roi sicrwydd ichi y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gefnogi pob cynnig sy’n dangos ffordd ymarferol ymlaen i helpu i liniaru ar dlodi tanwydd, yn y tymor byr a’r tymor hir.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1223(FM) a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**At Mark Isherwood:**

Rwy’n ysgrifennu mewn ymateb i’ch cwestiwn i Brif Weinidog Cymru yng nghyfarfod llawn 15 Gorffennaf ynghylch yr angen am fwy o gerrig milltir a dangosyddion perfformiad mewn perthynas â thargedau Tlodi Tanwydd y Llywodraeth. Fe ddywedoch chi bod National Energy Action yn ystyried bod cerrig milltir o’r fath yn angenrheidiol.

Mae’r rhain yn faterion y byddaf yn eu hystyried fel rhan o’r adolygiad o Strategaeth Tlodi Tanwydd Llywodraeth y Cynulliad. Rydym yn ei chynnal fel rhan o’r gwaith o ddatblygu Cynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni, sy’n un o ymrwymiadau Cymru’n Un.

Rwy’n bwriadu cyhoeddi’r cynllun ymgynghori erbyn diwedd 2008. Eisoes rydym wedi dechrau rhaglen i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn helpu i benderfynu ar y cynigion. Mae National Energy Action, sy’n rhan o’m Grŵp Cynghori ar Dlodi Tanwydd ac a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer eu gweithgareddau yng Nghymru, yn rhanddeiliad allweddol a bydd yn rhan annatod o’r broses.